Tud 1.

Cofnodion draft Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu yn Neuadd Llanbedr nos iau 5.6.25 am 7.30

**Presennoldeb**

Cadeirydd Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Robin Ward, Kevin Titley, Nia Jones, Cyngh Annwen Hughes

**Absennoldeb** drwy ymddiheuriad

Luise Vassey, John Evans, Helen Johns, Cyng Gwynfor Owen.

**Gair gan y Cadeirydd**

Yn diolch I bawb am eu presennoldeb, a cyflwyno blodau I'r Clerc a rei phenblwydd arbennig ac am ei holl waith.

**Datgan Buddiiant** – Annwen Hughes yn datgan buddiant rhag ofn bydd unrhyw gais yn cael ei alw I mewn I Bwyllgor llawn Parc Cenedlaethol Eryri.

Erys cais cynllunio tir ger Capel Salem I osod pods yn dal heb eu benderfyny. Posib bod y tir hwn wedi cael ei halogi ac felly ddim yn addas gosod pods arno. Angen I'r Clerc sgwennu at Parc Cenedlaethol I weld beth sydd yn digwydd. Nododd hefyd bod cais cyffelub wedi ei wrthod gan Gyngor Gwynedd ar dir fferm ger Corris yn ddiweddar.

Sylwadau gan y Cyngor – gwell gweld pods yna na adeilad storio cyrff anifeiliaid. Llai o gerbydau gyda pods, dim arttic I gario anifeiliaid marw oddi yno. A fyddai'r tir yn addas ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy?

**Cyllid**

Nododd y Clerc bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio yn ystod Mai gan Gyngor Gwynedd.

Angen eu harwyddo 5.6.25

Adroddiad mewnol ar gael.

Paratoi y cyfrifon yn awr tuag at Archwiliad llawn allanol. Hyn I'w gyflwyno erbyn dechrau Gorffennaf. Maent angen statement banc diwedd Mai, a diwedd Mehefin ar gyfer yr archwiliad.

Angen llungopio nifer o ddogfennau ac e bostio rhai pethau iddynt hefyd. Rhai dogfennau ar gael ar y we hefyd.

Adolygwyd polisi insiwrans 5.6.25

Adolygwyd polisi bioamrywiaeth

Arwyddo un llythur lwfans 5.6.25

Standing orders yn iawn hyd yma.

Nodwyd gan Annwen Hughe y byddai yn syniad adolygu rhain a mwy yn ystod mis Ionawr o bob blwyddyn. Pasiwyd I wneud hyn.

Yr angen I anfon spread sheet cyfrifon I bawb.

Yn y banc diwedd Mai ydoedd £30258.95

Hwn yn cynnwys presept o £14500

Ad daliad TAW o £705.25

+ £1908.00 tal claddu gan Pritchard a Griffiths

Wedi talu y canlynol hefyd yn ystod mis Mai –

| | | |
|---|---|---|
| Dyffryn Iron Design | £250 | torri gwair |
| Lorna Bland | £190 | torri gwair hen fynwent |
| Delyth Williams | £180 | mis mai . Camgymeriad yma. |

Talwyd £90 am ebrill a mai.

Ail dalwyd £90 ond Bellach gwelir bod hwn wedi cael ei ad dalu.(Cyfrif banc mehefin)

Cylch Meithrin – pa bryd mae angen talu cyfraniad iddynt? Wedi neilltuo £2000 yn y gyllideb iddynt.

Gellir rhyddhau 4 taliad y flwyddyn, bob tymor Ysgol.

Angen rhyddhau 1 taliad rwan . £500

Taliad Medi, taliad rhagfyr, taliad Mawrth 2026.

Cafwyd anfoneb gan y Clerc am ei Gwaith (yn hwyrach nag arfer) oherwydd gwahaniaeth nad oes taliad I fod I HMRC code wedi newid.

Materion Cyngor Cymuned – materion yn codi

1. Y Fynwent

Nodwyd y cafwyd diwrnod neu fore o dorri yn y fynwent. Bore da iawn gyda JTW, KT, HJ a'r Clerc a 2 o'r pentref yn gwirfoddoli. Cafwyd cymorth hefyd gan Alex Mead I glirio ffordd at y fynwent.

Pasiwyd I wneud hyn eto, mis Hydref.

Nodwyd bod angen ail wampio yr ardal compostio.

Angen arwyddion yno – parthed dim taflu oasis a phlastic I'r compost. JTW am wneud hyn.

Angen ail safle compost.

Beth am y cerrig? – Eu cynnig i adeiladwr – rhoi ar face book eu bod ar gael am ddim.

Cafwyd paned, a cafwyd 3 paced o fisgedi gan rheolwr siop yr Efail. Chwarae teg iddo fo.

2. Llwybrau

a) Angen anfon at un cyn gynghorydd neges e bost parthed coed a'r lwybrau cyhoeddus. Y tir feddianwr sydd yn gyfrifol am rhain ac unrhyw gostau.
b) Bod Tom Edwards yn awyddus I dorri ambell lwybr. Mae ETh am fynd o amgylch gyda o yn y dyddiau nesaf. Gweld llwybr 7 a llwybrau 16/17 Coed Llety Walter. Ceisio gwneud un cylchdaith yma. Gormod o lwybrau I allu cyfiawnhau eu torri I gyd.

Tud 3.

3. Tyrchod dear yn cae chwarae a fynwent – hyn wedi ei wneud.
4. Palmant a Arwydd llwybrau ger y Vic

Newydd siomedig parthed yr arwydd. Mae hi wedi mynd ar goll. Clerc wedi cael templed o'r arwydd gwreiddiol. ETh a'r Clerc wedi diwygio peth o'r arwydd hynny. Tynnu maes Parcio y Fron oddi arni a hefyd cywiro enw Bont Besar (Pont Glynne Artro oedd ar yr arwydd Newydd)

Clerc wedi anfon hwn ymlaen I'r Contractwyr. Rheini sydd I fod I dalu am arwydd Newydd. Hefyd wedi cwyno wrth Llinos Angharad Cyngor Gwynedd.

Ar ddeall bydd y palmant yn cael ei ostwng a gosod arwydd Newydd yr un pryd. Does wybod pryd fydd hyn yn digwydd.

Clerc wedi datgan ei siom parthed hyn, gwastraff ar amser ac oriau ychwanegol wedi ei gymrud I ddatrys y broblem.

5. Ymgynghoriad Ffordd liniaru Llanbedr

Cafwyd ymateb I'r llythur a anfonwyd cyn y dyddiad cau I'r ymgynghoriad Mis Mai.

Fawr iawn onewid y gellir eu disgwyl.

Cafwyd trafodaeth parthed hyn.

Nododd RW bod YGC yn amlwg yn diystyru unrhyw addasiadau ar y sail nad oes cais cynllunio yn bod ar eu cyfer.

Nododd AH a JTW bydda gwneud cais cynllunio arall ar gyfer unrhyw ychwanegiadau yn golygu cais cynllunio o'r Newydd. Proses hir, cymerud amser, adnoddau ac arian ychwanegol ac yn taflu'r cynllun sydd ar y cardiau yn awr ymhellach I'r dyfodol. Colli pob dim sydd wedi ei wneud ar hyn o bryd, a cychwyn o'r neywdd. Byddai Gwaith yn parhau am byth, dim diwedd, ac efallai colli y cwbwl yn y diwedd. Cael dim byd!!

Peth diwethaf rydym eisiau medd JTW ydi cael adolygiad barnwrol arall.

Nododd AH – drwy geisio egluro – "pan gwnaethpwyd cais cynllunio am y Neuadd Bentref" a hyn a gafwyd yn y diwedd gan nad oedd grantiau yn caniatau.

RW – gellir gwneud cais cynllunio o'r Newydd .

AH – mwy o arian, mwy o amser, ac efallai na fydd unrhyw grantiau ar gael erbyn cael dyfarniad .

RW – nododd er mwyn cadw'r cais cynllunio yn fyw yr oedd yn rhaid cychwyn ar waith materol , Y wal ar wal gyda peipen ynddi gyferbun a maes parcio ffordd Mochras. Son ydi bod y gwaith yma wedi costio tua £257, 000 o arian cyhoeddus.

|Mae hyn yn warthus, gwastraff ar arian cyhoeddus ac yn drosedd o bosib.

Pasiwyd bod y Clerc yn holi Llinos Angharad parthed y prisiau yma,ar sail rhyddid gwybodaeth. A chael croes doriad o'r costau.

Jones Brothers sydd wedi gwneud y gwaith cerrig.

Nododd JTW ei fod yn ddigalon iawn – pobl yr ardal yn aros ers 1959 am ffordd osgoi. Byddai'n dda gweld unrhyw ddatblygiad bellach.

Tud 4.

Nododd RW – felly os nad yw'r elfennau  newydd o waith ar y cais cynllunio ni fydd ar gael.

Yn hollol gywir.!!!

Tybed faint sydd wedi ymateb I'r ymgynghoriad?  Gellir holi am hyn hefyd.

**Adroddiad Cynghorydd Annwen Hughes**

1. Cwyn parthed cones ar y ffordd gyferbun a'r toiledau cyhoeddus.  Mae'r cylfat wedi cau yma.
2. Tim tacluso – chwynnu unwaith eto.
3. Arwydd Llanbedr – wedi cael ei droi I wynebu ffordd arall.  Hyn wedi ei ddatrys.
4. Car yn dal ar y ffordd ger Pentre Gwynfryn.  Neb yn cymerud unrhyw sylw ohono. Nododd y Clerc ei bod wedi cael gair gyda'r perchennog, ac ei fod am ei symud yn fuan .
5. Er gwybodaeth – Gwaith yn cael ei wneud yn Amlosgfa Bangor.  Rhoi amlosgfa Newydd yno.  Felly yn anffodus dim ond 4 gwasanaeth y dydd yno , a dim gwasanaethau ar ddydd sadwrn, nes bydd y Gwaith wedi ei gwblhau ( o gwmpas mis Rhagfyr).
6. Er gwybodaeth – bod Gwaith gosod cables o dan y ffordd a goleuadau traffic Porthmadog.  O ganlyniad bydd ffordd Llandecwyn I Maentwrog ar gau.
7. Newydd trist am farwolaeth Cynghorydd a Cadeirydd Cyngor Abermaw. Sef Rob Triggs a fu farw yn ddiweddar.  Ef oedd cynrychiolydd Cyngor Gwynedd ar Gyngor Tref Abermaw. Teyrnged iddo gan Gyngor Gwynedd.

**Newydd gan TFW**

Nododd y Clerc iddi dderbyn e bost yn ddiweddar parthed datblygiadau Station Talwrn Bach.

Bu RW a'r Clerc yn ymweld a swyddogion TFW yn ddiweddar, a bu gryn drafod.  Bellach dyma'r sylwadau –

Siom – ni fyddwn yn cael shelter cysgodfan Newydd yma!

Siom – ni fydd enw Talwrn Bach ar yr arwydd, fel yr oeddem wedi gofyn.

Bod y gysgodfan wedi ei phaentio.

Byddant yn ail osod llinell wen ar y platform.

Mae modd rhoi yr arwydd llwybrau ar y shelter.  Ond ddim yn hollol sicr pwy fydd yn talu am hwn.  O bosib cynllun grantiau – rhaid cael Cymdeithas arall I wneud y cais am hwn.

Bod templed yn barod ar gyfer ei roi yma, ond bydda yn dda cael arwydd fel o'r Cledrau I'r llwybrau sef logo TFW.

Mae modd hefyd I'r Cyngor ddatblygu paneli o hanes Talwrn Bach. Eto I'w roi ar y gysgodfan Costa a mwy o waith.  Angen paneli gwybodaeth o safon ac sydd yn gallu gwrthsefyll y tywydd, a dwr mor.

**Newydd am bin baw cwn**

O'r diwedd bydd Cyngor Gwynedd yn gosod bin baw cwn ger Talwrn bach. Hwn wedi ei osod, ar gornel y llwybr.Tud 5.

**Bin Sbwriel ar y platform** ?

Tud 5.

Falle bydd modd yn awr cael bin sbwriel wedi ei osod ar y platform.

Angen gofyn am un . Pwy fydd yn gyfrifol am ei wagio? Holi am hyn hefyd.

**Materion yn codi gan Gynghorwyr**

1.Luise Vassey wedi cwyno bod lot o sbwriel ar y safle gwyl y banc Mai 26. Ond wedi iddi fynd yno diwrnod canlynol , 'roedd rhywun wedi ei gasglu oddi yno.

2. Tyfiant ochr ffyrdd – Nododd AH mai un waith y flwyddyn roedd Cyngor Gwynedd yn torri ochr ffyrdd Bellach.

LV -Tyfiant gyferbun a Bron Meini. (Cyngor Gwynedd)

AH -Tyfiant ger Hafan Artro (Hysbysu Edward Griffiths eto)

JTW-Tyfiant ochr ffordd – Bryn Hyfryd (Cyngor Gwynedd)

JTW-Twll yn y ffordd ger Cypla (Cyngor Gwynedd)

KT – Enterprise Van yn parcio ar palmant ger Plas Newydd. Wedi ffonio 111 I'w hysbysu o hyn. Angen hysbysu Iwan ap Trefor I holi am bosibilrwydd o gael llinellau melyn dwbwl yma medd AH

KT – Arwydd dim cwn – angen un ar gyfer maes chwarae plant. Nododd y Clerc ei bod eisioes wedi gwneud cais am un gan Cyngor Gwynedd. Holi eto.

KT – yn nodi bod grantiau ar gael ar gyfer paneli solar. A fyddai modd cyfeirio hwn I sylw Fforwm Ardudwy? Pasiwyd I wneud hynny.

NJ – bod arwydd 20 m/a yn rhwystro gwelediad allan o ffordd Blaen Pwll, Sarn Hir. Hysbysu Cyngor Gwynedd.

ETh – Wedi awgrymu yn y cyfarfod diwethaf hefyd – bod prosiect gwirfoddoli Cae Deiliog yn dod I ben. Y gwirfoddolwyr pur yn dod ar gyful y lle Bellach. Angen rhoi ar y presept. Y Cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor Cymuned mae'n siwr.

Pasiwyd I'w roi ar agenda mis Gorffennaf.

ETh – Cyfarfod Blynyddol Neuadd – gan mae ychydig sydd yn mynychu cyfarfod y neuadd gwnaethpwyd cais gan Eirwyn I'w gynnal mis nesaf cyn cyfarfod Cyngor Cymuned. Cytunwyd ar hyn a'I gynnal am 7.00

Arfon Huws – ni fydd ar gael I gyfieuthu mis nesaf.

JTW – Canmoliaeth I Gardd agored Cypla dros Gwyl y Banc. Wedi casglu £1200 tuag ymchwil cancr a byddant yn rhoi cyfraniad at Ysgol Feithrin hefyd. Trefniant ar gyfer un arall diwedd y mis.

Diwrnod agored Aerodrom – Helen John, Jane Taylor a Lucy Powell wedi mynychu.

Diwrnod pur lewyrchus, nifer o gwmniau o dramor yna yn dangoos diddordeb mewn Aerospace a dronau. Angen buddsoddiad enfawr I weithredu y cynlluniau.

Tud 6.

Cwynion bod y dronau yn hedfan yn hwyrach y nos nag y maent I fod. Arbrofi gyda dronau yn cario dwr – dim byd ymosodol yma, dim ar gyfer arfau!!

Bod Lucy Powell wedi gofyn am e bost gan y Rheolwyr yn achlysurol. Cafwyd copi gan JTW.

Ond dylid cael e byst yn uniongyrchol I'r Clerc ganddynt hefyd. Siomedig nad yw hyn wedi digwydd, er gofyn a gofyn pan mae y Swyddogion yn dod I gyfarfodydd Cyngor Cymuned. Angen cysylltu efo nhw.

JTW – wedi cael neges destyn gan Owen Duncan ATC Llanbedr yn gofyn am lythyr cefnogaeth iddynt – ceisio am grant gan Cist Gwynedd ar gyfer paentio y Juvenik, a model bach o awyren sydd ganddynt mewn sied yn yr ATC. Hefyd ar gyfer creu paneli gwybodaeth. Pasiwyd I gefnogi hyn a dymuno'n dda iddynt ar y gwaith.